



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o [www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org) ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad

Llun

Nodiadau

Mathew 18: 21-35



- 1 Gofynnodd Pedr i Iesu, "Arglwydd, sawl gwaith ddylwn i faddau i frawd neu chwaer sy'n dal i bechu yn fy erbyn? Gymaint â saith gwaith?"



- 2 Atebodd Iesu, "Na, wir i ti, dim saith gwaith, ond o leia saith deg saith gwaith! A dyma Iesu'n dweud stori wrth ei ddisgyblion...."



- 3 Dyna sut mae'r Un nefol yn teyrnasu — mae fel brenin oedd wedi benthyg arian i'w swyddogion. Roedd un dyn mewn dyled o filiynau lawer iddo. Doedd y swyddog ddim yn gallu talu'r ddyled, felly gorchmynnodd y brenin i'r dyn a'i wraig a'i blant gael eu gwerthu yn gaethweision, a bod y cwbl o'i eiddo i gael ei werthu hefyd, i dalu'r ddyled.



- 
- 4 Syrthiodd y dyn ar ei liniau o'i flaen, a phledio, 'Rho amser i mi, a tala i'r cwbl yn ôl i ti.'



- 
- 5 Roedd y brenin yn teimlo trueni drosto, felly canslodd y ddyled gyfan a gadael iddo fynd yn rhydd.



- 
- 6 Ond pan aeth y dyn allan, daeth ar draws un o'i gydweithwyr, gwas arall, oedd mewn dyled fechan iddo. (tua cant o ddarnau arian)



- 
- 7 Gafaelodd ynddo a dechrau ei dagu, gan ddweud 'Pryd wyt ti'n mynd i dalu dy ddyled i mi? 'Dyma'r cydweithiwr yn syrthio ar ei liniau a chrefu, 'Rho amser i mi, a tala i'r cwbl yn ôl i ti.'



- 
- 8 Ond gwrthododd y dyn wrando arno. Yn lle hynny, aeth â'r mater at yr awdurdodau, a cafodd ei gydweithiwr ei daflu i'r carchar nes gallai dalu'r ddyled.



- 9 Roedd y gweision eraill wedi ypsetio'n fawr pan welon nhw beth ddigwyddodd, a dyma nhw'n mynd ac yn dweud y cwbl wrth y brenin.




- 10 Felly dyma'r brenin yn galw'r dyn yn ôl. 'Y gwas drwg!' meddai wrtho, 'wnes i ganslo dy ddyled di yn llwyr am i ti bledio mor daer o mlaen i. Ddylet ti ddim maddau i dy gydweithiwr fel gwnes i faddau i ti?'



- 11 Roedd y brenin yn gandryll/ Gwylltiodd y brenin...felly gorchmynnodd daflu'r swyddog i'r carchar i gael ei arteithio/ ei gosbi, nes iddo dalu'r cwbl o'r ddyled yn ôl.



- 12 Dyna sut fydd fy Nhad nefol yn delio gyda chi os na wnewch chi faddau'n llwyr i'ch gilydd." (Maddeuwch i'ch brodyr a'ch chworydd - eich cyd-Gristnogion - o waelod eich calon.)



13



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

[www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org)